



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Bodfeurig
Tregarth
Gwynedd
LL57 4RH**

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/11/2016

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Bodfeurig ar gyrion pentrefi Mynydd Llandegai a Sling, yn Nyffryn Ogwen, Gwynedd. Mae'n darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Oddeutu 25% o'r disgyblion a ddaw o gartrefi ble siaredir Cymraeg. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol a phrif gyfrwng y dysgu a'r addysgu. Fe addysgir Saesneg yn ffurfiol yng nghyfnod allweddol 2. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig lleiafrifol.

Derbynnir plant i'r ysgol yn amser llawn yn ystod y tymor maent yn bedair oed. Yn ystod yr arolygiad, roedd 67 o ddisgyblion ar y gofrestr gan gynnwys 8 yn y dosbarth meithrin. Fe'u haddysgir gan dri athro amser llawn ac un ran-amser mewn tri dosbarth o oedran cymysg.

Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae 19% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol. Mae'r ffigurau hyn ychydig yn is na chanrannau Cymru. Nid oes yr un disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2013. Mae hefyd yn bennaeth ar ysgol gyfagos sy'n cydweithio o fewn partneriaeth. Arolygwyd Ysgol Bodfeurig ddiwethaf yn Ebrill 2010.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Bodfeurig yn 2015-2016 yn £3,581. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £12,116 a'r lleiafswm yw £2,981. Mae Ysgol Gynradd Bodfeurig yn y 78ain safle allan o'r 98 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol
- medrau allweddol y disgyblion yn dda a bron pob un yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- safonau ymddygiad a hunanddisgyblaeth yn uchel a bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn cydweithio'n hynod o effeithiol
- athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys gan addasu'r cynlluniau yn fedrus er mwyn diwallu anghenion y disgyblion yn greadigol iawn
- yr addysgu yn gyson dda neu'n well ar draws yr ysgol
- ansawdd da'r gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion
- yr ysgol yn gymuned hapus ag iddi ethos cartrefol a chynhwysol, lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn rhagorol oherwydd bod:

- y pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus
- gweledigaeth glir y pennaeth yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel, hapusrwydd a lles y disgyblion
- y pennaeth yn llwyddo i arddel disgwyladau uchel ymhlith y staff, y llywodraethwyr, rhieni a'r disgyblion
- y pennaeth a phenaethiaid cynorthwyol y ddwy ysgol sy'n rhan o'r bartneriaeth yn cydweithio'n effeithiol iawn fel cymuned ddysgu broffesiynol
- y corff llywodraethol yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau cyfeiriad strategol i'r ysgol ac yn herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad
- diwylliant o hunanarfarnu parhaus, sy'n canolbwyntio'n fanwl ar ddeilliannau disgyblion, wedi gwreiddio'n ddwfn ym mywyd bob dydd yr ysgol
- cydweithio effeithiol gydag ystod o bartneriaethau yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad disgyblion

Argymhellion

A1 Parhau i wella safonau llafar Cymraeg ar draws yr ysgol

A2 Gwella lefelau presenoldeb yr ysgol

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos bod cyflawniad yn amrywio'n naturiol yn unol â'u hoed au gallu. Dim ond oddeutu 25% o ddisgyblion sydd yn dod o gartrefi ble siaredir Cymraeg ar yr aelwyd. Fodd bynnag, mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae medrau gwrando a llafar Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n astud ac yn trafod eu gwaith gydag oedolion a disgyblion eraill yn hyderus a brwdfrydig. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir yn Saesneg ac yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Fodd bynnag, nid ydynt yr un mor hyderus yn y Gymraeg gyda lleiafrif yn cael anhawster gyda chywirdeb a rhuglder. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu darllen. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen gyda rhuglder a mynegiant. Gall y rhan fwyaf drafod eu hoff lyfrau a chymeriadau'n hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn trafod eu hoff lyfrau'n aeddfed, yn ogystal â'u hoff awduron. Defnyddiant eu medrau'n briodol wrth gywain gwybodaeth yn eu gwaith ymchwilol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml gan sillafu'n gywir ac atalnodi'n bwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu hyfedredd i ddefnyddio geirfa ac iaith amrywiol i ysgrifennu darnau ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw'r adroddiadau gwyddonol ar greu cylched drydanol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus i wahanol ddibenion yn y Gymraeg a Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf yn dewis geirfa ddiddorol ac yn sillafu, atalnodi a pharagraffu'n gywir. Erbyn brig yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu darnau estynedig o ansawdd da ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chynulleidfaoedd. Maent yn defnyddio ansoddeiriau, cymariaethau ac idiomau'n hyderus i gyfoethogi'r gwaith. Mae disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 2 yn adolygu llyfrau fel 'Feel the Fear' gan Laura Child, ac adolygu cofiant o fywyd y 'Beatle', George Harrison, i safon uchel. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn daclus.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'u medrau rhif yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Maent yn defnyddio strategaethau adio,

tynnu, rhannu a lluosu syml yn dda. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu dealltwriaeth gadarn o amser analog i'r awr, hanner a chwarter awr. Mae ganddynt wybodaeth dda am nodweddion siapiau gwahanol ac mae llawer yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir wrth drafod eu gwaith. Gallant gasglu a chyflwyno gwybodaeth a chreu siartiau a graffiau cywir i gofnodi gwybodaeth am wahanol goed a drafodwyd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion afael gadarn ar fedrau rhifedd. Maent yn hyderus yn defnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosu wrth ddatrys problemau geiriol a rhesymegol, er enghraifft wrth gymharu costau postio parseli neu nwyddau o wahanol faint. Mae llawer yn trin ffracsiynau, degolion a chanrannau yn ddeallus. Maent yn barod i gynnig atebion ac i wirio eu gwaith ac i rannu eu canfyddiadau gyda'i gilydd. Maent yn casglu a chynrychioli data mewn tasgau ymchwiliol yn effeithiol iawn, yn enwedig mewn arbrefion gwyddonol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda. Maent yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn bwrpasol i gofnodi a chreu barddoniaeth syml, gan wneud newidiadau, pan fydd angen, er mwyn gwella mynegiant neu wirio llithriadau. Maent yn defnyddio meddalwedd yn fedrus i greu dyddiadur a chofnodi cynnydd yn nhyfiant lindys. Yn dilyn ymweliad i'r traeth, defnyddiwyd pecyn arlunio'n bwrpasol i wneud lluniau diddorol a pherthnasol am y siarc. Dangosant lefel dda o gymhwysedd wrth ddefnyddio'r llygoden a'r bysellfwrdd.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau TGCh i safon uchel. Maent yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd diddorol trwy ddefnyddio amrywiaeth helaeth o raglenni. Er enghraifft, gall llawer o ddisgyblion ym mlwyddyn 3 a 4 ddefnyddio meddalwedd i wella eu medrau darllen naill yn yr ysgol neu gartref. Maent yn defnyddio rhaglenni i greu sioe bypedau yn llwyddiannus gan greu cymeriadau, cefndiroedd a digwyddiadau sy'n datblygu eu medrau llafar yn llwyddiannus. Mae'r disgyblion hyn yn fedrus iawn wrth greu rhaglen sain ar gyfer Cymru FM. Golyga hyn sgriptio, ymarfer, recordio a golygu eu gwaith i safon uchel. Maent yn hyderus wrth chwilota mewn cronfa ddata a chreu taenlen i gyfrifo cost cynhwysion ar gyfer rysait. Mae dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd e-ddiogelwch yn amlwg yn yr ysgol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn yr ysgol yn aml. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, dros gyfnod o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwylidig o'i gymharu ag ysgolion tebyg wedi bod yn uwch na'r canolrif mewn tair allan o'r pedair blynedd mewn medrau iaith a mathemateg. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad ar y deilliant uwch mewn iaith wedi bod yn is na'r canolrif bob blwyddyn ac mae perfformiad mewn mathemateg wedi bod yn is na'r canolrif bob blwyddyn ar wahân i 2012 pan roedd perfformiad yn y 25% uchaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwylidig mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn uwch na'r

canolrif mewn tair allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad ar y lefel uwch wedi amrywio rhwng bod yn uwch na'r canolrif mewn rhai blynyddoedd i fod yn is mewn eraill.

Lles: Digonol

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n hapus a diogel yn yr ysgol, ac yn hyderus i droi at unrhyw aelod o staff os oes ganddynt bryderon. Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini, ac yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn gwersi addysg gorfforol a gweithgareddau allgyrsiol fel clwb 'Dal i Fynd', rygbi a 'Kick It'.

Mae safon ymddygiad a hunanddisgyblaeth bron pob un o'r disgyblion yn uchel. Maent yn dangos parch mawr at ei gilydd ac at oedolion. Maent i gyd yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cydweithio'n hynod o effeithiol. Dangosant fwynhad a balchder yn eu gwaith gan ddyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau estynedig. Nodwedd ardderchog yw dealltwriaeth y disgyblion ar draws yr ysgol o'u cryfderau a'r gallu i egluro'n hyderus yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gallu'r disgyblion i ddewis yn annibynnol, lefel yr her ar gyfer pob gweithgaredd, yn nodwedd arbennig.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd priodol i leisio barn a mynegi pryder. Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Maent yn ystyried sylwadau cyd-ddisgyblion yn briodol ac yn falch o'u hymdrechion. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio a fu gyda cyfeillion yr ysgol a busnesau lleol i greu gardd synhwyrau ddeniadol.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyfrannu'n dda i'r gymuned ehangach. Mae ymweliadau o gwmpas yr ardal ac i fferm gyfagos yn meithrin ymdeimlad o berthyn ynddynt a'u cymuned. Maent yn ymfalchïo yn y cyfle i wasanaethu a diddori trigolion y pentrefi cyfagos drwy gymryd rhan mewn gweithgaredd, er enghraifft 'Cawl a Chân' i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi Sant.

Mae lefel presenoldeb y llynedd yn dangos gwelliant amlwg. Fodd bynnag, nid yw cyfradd presenoldeb dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi cymharu'n dda ag ysgolion tebyg ac mae wedi bod yn is na'r canolrif. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys gan addasu'r cynlluniau yn fedrus er mwyn diwallu anghenion y disgyblion yn greadigol iawn. Maent yn ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol.

Nodwedd arbennig iawn yw'r cydweithio effeithiol sydd wrth gyd-gynllunio gydag ysgol arall y bartneriaeth. Drwy rannu arbenigedd, mae'r athrawon yn sicrhau ystod eang o brofiadau dysgu dychmygus ac ysgogol sy'n diwallu anghenion y disgyblion

yn llwyddiannus iawn. Agwedd ardderchog o hyn yw paratoi meini prawf dychmygus sy'n seiliedig ar dair lefel o her ar gyfer bob gwers. Mae hyn wedi datblygu medrau'r disgyblion yn llwyddiannus i benderfynu drostynt eu hunain pa lefel o her sydd fwyaf addas iddynt ym mhob gwers. Mae'r arfer hon eisoes wedi ei rhannu a'i chydabod yn lleol fel arfer arloesol.

Mae cynllunio effeithiol ar draws yr ysgol ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth. Mae'r dilyniant a'r parhad yn y cynllunio yn cael effaith gadarnhaol iawn ar gynnydd a chyflawniad disgyblion, er enghraifft yn eu medrau ysgrifennu a TGCh, yn enwedig gyda disgyblion mwy abl yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn dda. Trwy greu ethos hynod o gadarnhaol a hyrwyddo cyson yr holl staff, mae'r ddarpariaeth yn ennyn diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion tuag at yr iaith. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn ddychmygus. Atgyfnerthir y profiadau yn effeithiol iawn drwy weithgareddau megis Cymru Cŵl ble mae arlunwyr a beirdd wedi gweithio gyda disgyblion i wella eu hymwybyddiaeth a'u diddordeb mewn traddodiadau, diwylliant a hanes yr ardal a Chymru.

Trwy ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr, mae disgyblion yn cael cyfleoedd da i ddysgu sut i fyw mewn modd cynaliadwy. Mae ailgylchu ac arbed ynni a dŵr yn weithgareddau dyddiol yn yr ysgol. Mae cyfleoedd da iawn i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth ac ehangu eu gwybodaeth o rannau eraill o'r byd a diwylliannau eraill drwy weithgareddau cwricwlwaidd.

Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn dda neu'n well ar draws yr ysgol. Mae pob athro yn defnyddio amrywiaeth diddorol o ddulliau addysgu sy'n ennyn cyfranogiad a diddordeb y disgyblion yn dda. Maent yn rhannu pwrpas y gwersi'n glir ac yn trafod meini prawf llwyddiant gyda disgyblion yn gyson yn ystod y gwersi. Mae athrawon yn holi disgyblion yn dreiddgar ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd a meddwl yn gyson ar draws y cwricwlwm. Mae cyflwyniadau'r gwersi'n fywiog gyda chyflymder da.

Mae staff yn sefydlu perthynas waith arbennig gyda'r disgyblion sy'n meithrin dysgu llwyddiannus. Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel ac mae'r disgyblion i gyd yn deall hyn. O ganlyniad, maent yn cyflawni safonau da. Mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu'r disgyblion yn sylweddol, gyda phob aelod o staff yn modelu iaith yn effeithiol iawn.

Gwna athrawon ddefnydd medrus iawn o ystod o strategaethau asesu. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Mae enghreifftiau da o farcio pwrpasol ac mae sylwadau'r athrawon yn ymateb i dargedau unigol, ac yn aml yn cyfeirio at wella medrau'r disgyblion. Mae athrawon yn annog disgyblion i fanteisio ar y cyfle i wella eu gwaith trwy ymateb i sylwadau'r athro. Mae cyfleoedd cyson i ddisgyblion fyfyrion ar eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion sy'n seiliedig ar dair lefel o her synhwyrol. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion, yn gynnar iawn, yn deall pa mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys defnydd effeithiol o ddeilliannau profion safonol ac asesiadau athrawon. O ganlyniad, mae'r athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth i osod gweithgareddau heriol er mwyn iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn trefnu cyfarfodydd amrywiol ar gyfer rhieni yn rheolaidd er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o natur yr addysgu a'r dysgu ac i'w galluogi i gefnogi eu plant. Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae adroddiadau blynyddol yn gynhwysfawr.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ansawdd da'r gofal, y cymorth a'r arweiniad yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles y disgyblion. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, ac ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn deall sut i fod yn ddiogel. Cefnogir hyn yn dda drwy ddigwyddiadau fel y siop ffrwythau amser egwyl a chlybiau chwaraeon.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus drwy ddarparu gwasanaethau cyd-oddoli rheolaidd a thrwy weithgareddau'r cwricwlwm. Mae darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol o ansawdd uchel ac yn golygu bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch tuag at eraill. Fe amlygir hyn yn glir yn y ffordd maent yn ymdrin â'i gilydd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae athrawon yn nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol yn fuan, yn darparu cymorth yn briodol, ac yn monitro cynnydd disgyblion yn gyson ac yn effeithiol. Mae staff yn gofalu bod cynlluniau addysg unigol yn fanwl a thrylwyr ac yn cynnwys barn y rhieni pan gânt eu hadolygu.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol iawn gyda nifer o asiantaethau arbenigol, sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd uchel i ddisgyblion a rhieni. O ganlyniad, mae unigolion yn cael gofal o ansawdd uchel.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn gymuned hapus ag iddi ethos cartrefol a chynhwysol, lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel. Mae pwyslais amlwg ar sicrhau cyfle cyfartal a mynediad llawn i'r cwricwlwm eang ar gyfer pob disgybl. Mae parch at wahaniaeth a chydaddoldeb hiliol yn cael ei hyrwyddo yn llwyddiannus drwy waith amrywiol, gan gynnwys astudio gwledydd tramor.

Mae'r adeilad o ansawdd da. Mae'r manau dysgu allanol wedi eu datblygu mewn modd creadigol er mwyn gwneud defnydd effeithiol iawn o'r gofod sydd ar gael ac i wella profiadau dysgu a chwarae'r disgyblion.

Mae ystod amrywiol o offer ac adnoddau o ansawdd uchel yn yr ysgol, sy'n cael eu defnyddio'n hynod effeithiol. Mae buddsoddiad sylweddol wedi ei wneud yn ddiweddar i wella'r caledwedd ar gyfer TGCh.

Mae'r staff yn cynhyrchu arddangosfeydd symbylol yn y dobarthiadau sy'n cefnogi'r dysgu yn effeithiol. Yn ogystal, mae cyflawniadau a llwyddiannau'r disgyblion yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn creu amgylchedd dysgu diddorol ac yn ennyn balchder y disgyblion yn eu gwaith.

Mae safon glanweithdra yn uchel ac mae adeilad a thir yr ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn ddiogel.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gadarn ac effeithiol iawn sy'n sicrhau cyfeiriad strategol clir i'r ysgol a diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae ganddi weledigaeth glir iawn yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel, hapusrwydd a lles disgyblion. Mae'n llwyddo i arddel disgwyliadau uchel ymhlith y staff, y llywodraethwyr, rhieni a'r disgyblion sy'n sicrhau bod pob agwedd o fywyd yr ysgol yn cael dylanwad clir a phositif ar y safonau a gyflawnir.

Mae systemau cyfathrebu effeithiol, a rheolaeth arbennig ar amser, yn sicrhau bod staff ar bob lefel yn cydweithio'n effeithiol iawn i sicrhau bod cymuned yr ysgol yn un drefnus ac yn cael ei rheoli'n llwyddiannus iawn. Mae'r pennaeth a phenaethiaid cynorthwyol y ddwy ysgol sy'n rhan o'r bartneriaeth, yn cydweithio'n effeithiol iawn fel cymuned ddysgu broffesiynol ymroddedig. Enghreifftiau ardderchog o hyn yw'r ffordd mae'r ddwy ysgol yn cynllunio profiadau dysgu, wedi datblygu strwythurau asesu ar gyfer dysgu ac yn arfarnu gwaith ei gilydd.

Mae strwythur staffio'r ysgol yn galluogi'r holl athrawon a'r staff cynorthwyol, i deimlo perchnogaeth dros bolisïau a dulliau gweithredu'r ysgol. Mae'r ffocws ar godi safonau, drwy systemau rheoli grymus, yn glir ac yn sicrhau bod perfformiad yr ysgol yn cael ei herio'n gyson. O dan arweinyddiaeth arbennig y pennaeth, mae'r holl staff yn dangos ymrwymiad cryf i sicrhau gwelliannau pellach a datblygu gweithgareddau dysgu a dulliau addysgu newydd. O ganlyniad, mae'r disgyblion ar draws yr ysgol yn elwa o brofiadau dysgu dychmygus ac ysgogol.

Fe wneir defnydd arbennig o effeithiol o ddata perfformiad i ddadansoddi canlyniadau a thueddiadau ac i gynllunio ar gyfer gwella. Mae hyn yn galluogi athrawon i adnabod anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion yn drylwyr ac i gryfhau agweddau ar yr addysgu a'r cynllunio.

Mae'r llywodraethwyr yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau cyfeiriad strategol i'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddata perfformiad. O ganlyniad, mae eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion y teulu, ac ysgolion tebyg, yn dda. Mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol.

Mae'r pennaeth yn arwain mentrau a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus iawn er mwyn datblygu agweddau penodol ar fywyd yr ysgol. Mae strategaethau llythrennedd, rhifedd a TGCh yr ysgol yn sicrhau bod bron pob disgybl yn cyrraedd safonau da. Mae ymroddiad yr ysgol i sicrhau llwyddiant y bartneriaeth yn arloesol ac wedi ei rannu gydag ysgolion eraill.

Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae diwylliant o hunanarfarnu parhaus, sy'n canolbwyntio'n fanwl ar ddeilliannau disgyblion, wedi gwreiddio'n ddwfn ym mywyd bob dydd yr ysgol. Mae'n broses fyw ac effeithiol iawn sy'n galluogi'r ysgol i adnabod, monitro a gwerthuso ei pherfformiad yn hynod llwyddiannus.

Mae systemau cadarn iawn i adolygu cynnydd, nodi meysydd i'w gwella a chymryd camau effeithiol i'w gweithredu. Nodwedd arbennig yw'r ffordd mae'r pennaeth a phenaethiaid cynorthwyol y ddwy ysgol sy'n rhan o'r bartneriaeth yn cydweithio'n i gyfrannu'n effeithiol at welliannau yn Ysgol Bodfeurig. Mae'r ffordd y mae'r aelodau staff i gyd yn cymryd rhan weithredol yn y broses o fonitro, gwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn gryfder amlwg. Mae'r rhain yn cynnwys dadansoddiad gofalus o ddata perfformiad cymharol yr ysgol, y deilliannau, y trefniadau asesu mewnol, ac wrth graffu ar lyfrau a chynlluniau gwaith, ac arsylwadau gwersi rheolaidd. Mae hyn wedi arwain at gymuned ddysgu gref iawn ble mae staff yn dysgu oddi wrth ei gilydd yn effeithiol iawn. Mae cyfraniad y llywodraethwyr i'r broses o graffu ar lyfrau a chynlluniau gwaith yn eu galluogi i herio'r ysgol yn effeithiol. Mae templed a threfniadau hunanarfarnu'r ysgol wedi cael ei rhannu fel arfer dda ar draws yr awdurdod addysg ac ardal y consortiwm lleol.

Mae gwranddo ar lais y disgyblion yn nodwedd gref. Fe geir cyfleoedd i ddisgyblion bron yn ddyddiol i wneud sylwadau ac awgrymiadau, naill ai drwy bwyllgorau neu'n unigol am fywyd a gwaith yr ysgol. Fe gedwir dyddiadur dyddiol sy'n dangos disgyblion o bob oed yn rhoi sylwadau am yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol. Enghraifft ddiweddar iawn yw barn y disgyblion hŷn am werth eu hymweliad i Gastell Caernarfon ar ddechrau'r tymor. Mae gwaith' swyddogion 'Cymru Cŵl' ar sut i hybu'r Gymraeg o gwmpas yr ysgol yn weithredol, gyda'r 'swyddogion digidol' yn cynghori a chefnogi disgyblion eraill yn effeithiol. Mae athrawon yn rhoi sylw teilwng i ymatebion y disgyblion ac mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth y disgyblion o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn deillio'n uniongyrchol o'r broses hunanarfarnu ac yn manylu'n rhesymegol ar y prif flaenoriaethau. Mae'n ddogfen gryno a chlir gyda nifer addas o flaenoriaethau i weithredu arnynt dros dair blynedd. Mae'r cynlluniau a'r camau gweithredu yn dyrannu cyfrifoldebau, gan gynnwys cyfrifoldeb monitro a gwerthuso effeithiolrwydd, yn glir. Mae gallu'r ysgol i gynllunio a sicrhau gwelliant yn llwyddiannus ac wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn sawl maes ers penodiad y pennaeth dair blynedd yn ôl. Enghreifftiau da iawn o hyn yw safon cyflwyniad a llawysgrifen y disgyblion ar draws yr ysgol a'u gallu i ddeall pa mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad disgyblion. Mae'r bartneriaeth gyda rhieni yn gryfder. Mae rhieni'n gefnogol iawn i holl weithgareddau'r ysgol ac yn gwerthfawrogi ymdrechion y staff. Mae cymdeithas rhieni ac athrawon yn weithgar iawn ac wedi cyfrannu'n sylweddol at brynu adnoddau, er enghraifft i wella'r llyfrgell, yr amgylchedd allanol a chyfarpar TGCh.

Mae disgyblion yn cymryd rhan yn rheolaidd mewn cyngherddau lleol. Mae cysylltiadau â'r Cylch Meithrin wedi'u sefydlu'n dda sy'n helpu disgyblion newydd i ymgartrefu'n sydyn pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol. Mae cynlluniau pontio manwl gyda'r ysgolion uwchradd lleol, gan gynnwys cysylltiadau cwricwlaidd a bugeiliol defnyddiol. Mae'r rhain yn effeithiol wrth helpu'r disgyblion i baratoi ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu dysgu. Mae partneriaeth dda rhwng arweinwyr yr ysgol, yr awdurdod lleol a'r consortiwm rhanbarthol gan sicrhau cydweithio agos i wireddu gweledigaeth yr ysgol.

Mae athrawon o ysgolion y bartneriaeth, ac ysgolion cynradd eraill y clwstwr, yn gweithio'n effeithiol gyda chydweithwyr mewn ysgolion uwchradd i sicrhau cysondeb mewn asesu. Mae athrawon hefyd yn gweithio gyda'i gilydd ar draws y sectorau er mwyn sicrhau parhad yn y dysgu mewn llawer o bynciau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ac yn sicrhau cysondeb wrth gymedroli a safoni gwaith y disgyblion. Mae ymroddiad yr ysgol i sicrhau llwyddiant y bartneriaeth yn arloesol ac wedi ei rannu'n llwyddiannus gydag ysgolion eraill.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu llwyddiannus. Mae wedi ei staffio'n effeithiol gan athrawon a chymorthyddion sydd â chymwysterau a phrofiad priodol. Mae ymrwymiad blaenllaw staff i lwyddiant y bartneriaeth yn sicrhau y gwneir defnydd llawn o arbenigedd staff y ddwy ysgol.

Mae prosesau rheoli perfformiad yr ysgol yn arwain yn effeithiol at ddatblygiad staff ac maent yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion unigolion. Sefydlwyd cymuned ddysgu broffesiynol fuddiol rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill y dalgylch i ddatblygu, er enghraifft, strategaethau asesu ar gyfer dysgu a TGCh. Mae hyn wedi codi safonau yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol baich gwaith athrawon. Defnyddia'r athrawon eu hamser digyswllt yn effeithiol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae penderfyniadau gwariant yn ymwneud yn uniongyrchol â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwelliant. Mae'r llywodraethwyr a'r pennaeth yn monitro gwariant yn fanwl ac yn gwneud penderfyniadau ariannu effeithlon i ateb anghenion yr ysgol dan drefniant y bartneriaeth. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella'r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae amrediad da o adnoddau yn yr ysgol ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol er mwyn sicrhau mynediad llawn i ddisgyblion at bob agwedd o'r cwricwlwm. Mae hyn yn amlwg iawn yn y defnydd pwrpasol a wneir o neuadd yr ysgol, yr ardal allanol, y cae chwarae a chyfarpar TGCh.

O ystyried y deilliannau da, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

6612013 - Ysgol Bodfeurig

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	74
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	6.6
Grŵp PYD	1 (PYD<=8%)

Cyfnod Sylfaen

	2013	2014	2015	2016
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	4	13	12	7
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	100.0	76.9	100.0	100.0
Chwarter meincnod	1	4	1	1
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*	*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	4	13	12	7
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	84.6	100.0	100.0
Chwarter meincnod	1	4	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	0.0	7.7	25.0	42.9
Chwarter meincnod	4	4	4	2
Datblygiad mathemategol (MDT)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	4	13	12	7
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	76.9	100.0	100.0
Chwarter meincnod	1	4	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	0.0	0.0	25.0	57.1
Chwarter meincnod	4	4	4	1
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	4	13	12	7
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	100.0	100.0	100.0	100.0
Chwarter meincnod	1	1	1	1
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	100.0	38.5	100.0	100.0
Chwarter meincnod	1	4	1	1

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6612013 - Ysgol Bodfeurig

Nifer y disgyblion ar y gofrestr	74
Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd	6.6
Grŵp PYD	1 (PYD<=8%)

Cyfnod allweddol 2

	2013	2014	2015	2016
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	5	8	7	11
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	80.0	100.0	100.0	100.0
Chwartzel meincnod	4	1	1	1
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	5	8	7	11
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	80.0	100.0	100.0	100.0
Chwartzel meincnod	4	1	1	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	0.0	12.5	57.1	45.5
Chwartzel meincnod	4	4	2	3
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	5	8	7	11
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	80.0	100.0	100.0	90.9
Chwartzel meincnod	4	1	1	3
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	20.0	0.0	57.1	36.4
Chwartzel meincnod	4	4	1	3
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	5	8	7	11
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	80.0	100.0	100.0	100.0
Chwartzel meincnod	4	1	1	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	80.0	12.5	57.1	54.5
Chwartzel meincnod	1	4	2	2
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	5	8	7	11
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	80.0	100.0	100.0	100.0
Chwartzel meincnod	4	1	1	1
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	0.0	0.0	57.1	54.5
Chwartzel meincnod	4	4	2	2

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartzel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartzel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartzel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.

<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	
I feel safe in my school.	37	37 100%	0 0%	Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol.
		98%	2%	
The school deals well with any bullying.	37	37 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio.
		92%	8%	
I know who to talk to if I am worried or upset.	37	36 97%	1 3%	Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio.
		97%	3%	
The school teaches me how to keep healthy	37	37 100%	0 0%	Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach.
		97%	3%	
There are lots of chances at school for me to get regular exercise.	37	37 100%	0 0%	Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd.
		96%	4%	
I am doing well at school	37	37 100%	0 0%	Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol.
		96%	4%	
The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress.	37	37 100%	0 0%	Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.
		99%	1%	
I know what to do and who to ask if I find my work hard.	37	37 100%	0 0%	Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd.
		98%	2%	
My homework helps me to understand and improve my work in school.	37	34 92%	3 8%	Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol.
		91%	9%	
I have enough books, equipment, and computers to do my work.	37	37 100%	0 0%	Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith.
		95%	5%	
Other children behave well and I can get my work done.	37	37 100%	0 0%	Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith.
		77%	23%	
Nearly all children behave well at playtime and lunch time	37	37 100%	0 0%	Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.
		84%	16%	

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	20	17 85%	3 15%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	20	16 80%	4 20%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		73%	26%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	20	17 85%	3 15%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	19	14 74%	5 26%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		62%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	19	9 47%	10 53%	0 0%	0 0%	1	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		47%	48%	4%	1%		
Teaching is good.	20	14 70%	6 30%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		61%	36%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	19	14 74%	4 21%	1 5%	0 0%	1	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		65%	34%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	20	10 50%	10 50%	0 0%	0 0%	0	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		49%	43%	6%	2%		
Staff treat all children fairly and with respect.	18	14 78%	4 22%	0 0%	0 0%	2	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		60%	35%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	20	12 60%	8 40%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		60%	37%	2%	0%		
My child is safe at school.	20	16 80%	4 20%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	32%	2%	1%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	17	8 47%	9 53%	0 0%	0 0%	3	Mae fy mhentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		56%	39%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	20	12 60%	7 35%	1 5%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhentyn.
		49%	41%	8%	2%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	20	16 80%	3 15%	1 5%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	5%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	19	8 42%	9 47%	2 11%	0 0%	1	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		48%	42%	8%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	19	10 53%	9 47%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		58%	40%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	14	6 43%	8 57%	0 0%	0 0%	5	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		52%	41%	5%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	20	14 70%	6 30%	0 0%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		54%	39%	6%	1%		
The school is well run.	20	15 75%	5 25%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		62%	33%	3%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Mervyn Jones	Arolygydd Cofnodol
Gwilym Rees	Arolygydd Tîm
David Davies	Arolygydd Tîm
Owen Jenkins	Arolygydd Lleyg
Alison Halliday	Enwebai

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.